



CYLCH GORCHWYL A CHYTUNDEBAU GWEITHREDU

PWYLLGOR LLYWODRAETHU A DIOGELWCH DIGIDOL

Fersiwn y Ddogfen	1
-------------------	---

Statws	Cymeradwywyd
--------	--------------

Awdur y ddogfen:	Chris Darling, Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd
Cymeradwywyd gan	Rowan Gardner, Cadeirydd y Pwyllgor
Dyddiad cymeradwyo:	Chwefror 2025
Dyddiad adolygu:	Chwefror 2026

AMCAN STRATEGOL	Darparu Gwasanaethau Digidol o Ansawdd Uchel
------------------------	--

DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL	Cymru Iachach
Os oes mwy nag un safon yn berthnasol, rhestrwch nhw isod:	

SAFONAU ANSAWDD IGDC	ISO 9001
Os oes mwy nag un safon yn berthnasol, rhestrwch nhw isod: ISO 20000-1:2011 ISO 27001:2013 BS 10008:2014	

SAFONAU IECHYD A GOFAL	Gofal Effeithiol
Os oes mwy nag un safon yn berthnasol, rhestrwch nhw isod: Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	

DATGANIAD YR ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB	Dyddiad cyflwyno: Ddim yn berthnasol
Na, (mae'r manylion am y rhesymau wedi'u cynnwys isod)	Canlyniad: Dim effaith
Datganiad: Ddim yn berthnasol	

LLWYBR CYMERADWYO/CRAFFU: Person / Pwyllgor / Grŵp sydd wedi derbyn neu ystyried hyn		
PWYLLGOR NEU GRŴP	DYDDIAD	CANLYNIAD
Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol	12 Mai 2021	Cymeradwywyd
Bwrdd Awdurdod Iechyd Arbennig Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)	27 Mai 2021	Cymeradwywyd
Y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol	18 Chwefror 2022	Cymeradwywyd
Y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol	27 Chwefror 2025	Cymeradwywyd

Bwrdd Awdurdod Iechyd Arbennig Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)	28 Ionawr 2025	Cymeradwywyd
--	-------------------	--------------

ASESIAD O'R EFFAITH	
GOBLYGIADAU/EFFAITH ANSAWDD A DIOGELWCH	Ie, gweler y manylion isod
	Mae canllawiau clir ynghylch gofynion sicrwydd ar ran y bwrdd yn cael effaith gadarnhaol ar y Sefydliad. Mae cynnal ein hachrediadau Sefydliadol yn llwyddiannus yn sicrhau dull cyfunol o ymdrin â safonau ac ansawdd a fydd yn cael ei fonitro gan Bwyllgorau'r Bwrdd.
GOBLYGIADAU/EFFAITH GYFREITHIOL	Ie, gweler y manylion isod
	Pe na bai'r Sefydliad yn dilyn y systemau a'r prosesau sydd ar waith i reoli'r meysydd o fewn y Cylch Gorchwyl hwn, gallai fod goblygiadau cyfreithiol.
GOBLYGIADAU/EFFAITH ARIANNOL	Ie, gweler y manylion isod
	Pe na bai'r Sefydliad yn dilyn y systemau a'r prosesau sydd ar waith i reoli'r meysydd o fewn y Cylch Gorchwyl hwn, gallai fod goblygiadau ariannol.
GOBLYGIADAU/EFFAITH Y GWEITHLU	Na, nid oes unrhyw effaith uniongyrchol ar adnoddau o ganlyniad i'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn.
GOBLYGIADAU/EFFAITH ECONOMAIDD- GYMDEITHASOL	Nac oes, nid oes unrhyw oblygiadau economaidd-gymdeithasol penodol yn gysylltiedig â'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn

TABL CYNNWYS

1	HANES Y DDOGFEN	5
1.1	HANES ADOLYGU	5
1.2	ADOLYGWYR	5
1.3	AWDURDODI	5
1.4	LLEOLIAD Y DDOGFEN	6
2	CYFLWYNIAD	6
3	PWRPAS Y PWYLLGOR	7
4	AMCANION Y GRŴP A PHWERAU DIRPRWYEDIG	7
5	MYNEDIAD	8
6	CYFARFODYDD	8
6.1	Tynnu unigolion a oedd yn bresennol yn ôl	9
6.2	Dosbarthu Papurau	9
7	AELODAETH, MYNYCHWYR A CHWORWM	9
7.1	Aelodau	9
7.2	Trwy wahoddiad	9
7.3	Penodiadau	9
7.4	Cworwm	10
8	LLYWODRAETHU	10
8.1	Perthynas ac atebolrwydd gyda'r Bwrdd a'i Bwyllgor/Grwpiau	10
8.2	Trefniadau Adrodd a Sicrwydd	10
8.3	Ysgrifenyddiaeth	10
8.4	Cymhwysedd rheolau sefydlog i Fusnes y Pwyllgor	10
9	CYFEIRIADAU	11
10	DIFFINIADAU	11

LLEOLIAD Y DDOGFEN

Math	Lleoliad
Electronig	System Reoli Integredig / iPassport

1 HANES Y DDOGFEN

1.1 HANES ADOLYGU

Dyddiad	Fersiwn	Awdur	Crynodeb Adolygu
01.12.20	D0.1	Sophie Fuller	Drafft Cychwynnol:
24.03.21	D0.2	Sophie Fuller	Ail-ddrafftio
10.04.21	D0.3	Sophie Fuller	Ail-ddrafftio
18.02.22	D 04	Chris Darling	Drafft diwygiedig
30.11.2022	D 05	Laura Tolley	Drafft wedi'i ddiweddarau ar gyfer adolygiad blynyddol
Medi 2023	D 06	Laura Tolley	Wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu trefniadau llywodraethu newydd a mwy o aelodau

1.2 ADOLYGWYR

Mae angen yr adolygiadau canlynol ar y ddogfen hon:



Dyddiad	Fersiwn	Enw	Swydd
19.04.21	D0.3	Rhidian Hurle	Cyfarwyddwr Meddygol
29.04.21	D0.3	Sian Doyle	Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol
18.02.22	D 04	Chris Darling	Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd
18.02.22	D 04	Rowan Gardner	Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol
Tachwedd 2022	D 05	Chris Darling	Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd
Medi 2023	D 06	Chris Darling	Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd

1.3 AWDURDODI

Mae llofnodi'r ddogfen hon yn dangos eich bod yn derbyn ei chynnwys.

Enw'r Awdur:	Chris Darling
Rôl:	Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd

Llofnod:	 Recoverable Signature  <hr/> Chris Darling Director of Corporate Affairs/ Board Secretary Signed by: Andrea Harris (An286780)
----------	--

Enw'r Cymeradwywr:	Rowan Gardner
Rôl:	Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol
Llofnod:	 Recoverable Signature  <hr/> Rowan Gardner Approver Chair of Digital Governance and Safety Commit... Signed by: Andrea Harris (An286780)

1.4 LLEOLIAD Y DDOGFEN

Math	Lleoliad
Electronig	System Reoli Integredig / iPassport

2 CYFLWYNIAD

Yn unol ag Atodlen 3 y Rheolau Sefydlog, bydd y Bwrdd yn enwebu pwyllgor yn flynyddol a fydd ymdrin â goruchwyllo a chraffu ar ansawdd, diogelwch, llywodraethu gwybodaeth, ansawdd data, diogelwch a risg. Bydd cylch gwaith y Pwyllgor hwn yn cael ei ymestyn i gynnwys Dysgu Sefydliadol mewn perthynas yn ddigidol ag iechyd a gofal a bydd yn cael ei alw'n Bwyllgor Llywodraethu Digidol a Diogelwch.

Mae'r cylch gorchwyl a'r trefniadau gweithredu manwl a osodwyd gan y Bwrdd mewn perthynas â'r Pwyllgor hwn wedi'u nodi isod.

Mae'r cylch gorchwyl a'r trefniadau gweithredu hyn i'w darllen ochr yn ochr â'r cylch gorchwyl a'r trefniadau gweithredu safonol sy'n berthnasol i bob pwyllgor sydd i'w gweld yn y Rheolau Sefydlog.

Bydd Ysgrifennydd y Bwrdd yn sicrhau bod yr holl bapurau'n cael eu dosbarthu o leiaf un wythnos galendr cyn y cyfarfod ac yn pennu'r trefniadau ysgrifenyddol a chymorth ar gyfer y Pwyllgor.

Bydd y Cylch Gorchwyl hwn a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol yn ei gyfarfod cyntaf, yn destun adolygiad o leiaf bob blwyddyn.

3 PWRPAS Y PWYLLGOR

Pwrpas y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol (“y Pwyllgor”) yw cynghori a sicrhau’r Bwrdd wrth iddo gyflawni ei gyfrifoldebau o ran ansawdd a chywirdeb; diogelwch a defnydd priodol o wybodaeth a data i gefnogi darparu iechyd a gofal a gwella gwasanaethau a darparu iechyd a gofal digidol o ansawdd uchel.

Bydd y Pwyllgor yn ceisio sicrwydd ar ran y Bwrdd mewn perthynas â threfniadau lechyd a Gofal Digidol Cymru ar gyfer rheoli a diogelu gwybodaeth yn briodol ac yn effeithiol (gan gynnwys gwybodaeth am gleifion a gwybodaeth bersonol) yn unol â chyfrifoldebau deddfwriaethol a rheoliadol.

Bydd y Pwyllgor, mewn perthynas â’i ddarpariaeth o gyngor a sicrwydd yn:

- Rhoi sicrwydd i’r Bwrdd ac i’r Prif Weithredwr (sef y Swyddog Atebol) ynghylch a oes trefniadau effeithiol ar waith i gyflawni ei gyfrifoldebau, gan gyfeirio’n benodol at;
 - Seiberddiogelwch
 - Llywodraethu Gwybodaeth
 - Sicrwydd Gwybodeg
 - Gwasanaethau Gwybodaeth
 - Dylunio Technegol
 - Dyletswydd Safonau Ansawdd sy’n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor
 - Adolygu Digwyddiadau a Dysgu Sefydliadol
 - Ymchwil ac Arloesi
- Cynghori, lle y bo’n briodol, y Bwrdd a’r Prif Weithredwr ar ble, a sut, y gellir cryfhau a datblygu ei systemau a’i fframwaith sicrwydd ymhellach
- Cymeradwyo polisiau, gweithdrefnau a dogfennau rheoledig ysgrifenedig eraill ar ran y Bwrdd
- Darparu craffu a sicrwydd ar ran y bwrdd ar gyfer y safonau a’r rheoliadau perthnasol o fewn cylch gwaith y rhestr a nodir uchod mewn perthynas ag ansawdd a chydymffurfiaeth.

4 AMCANION Y GRŴP A PHWERAU DIRPRWYEDIG

Mae’r Pwyllgor yn aelod annibynnol o bwyllgor y Bwrdd ac nid oes ganddo bwerau gweithredol, ac eithrio’r rhai a ddirprwywyd yn benodol yn y Cylch Gorchwyl hwn.

Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu Digidol a Diogelwch rôl allweddol wrth gynorthwyo Bwrdd yr Awdurdod Iechyd Arbennig i gyflawni ei gyfrifoldebau goruchwyllo.

Bydd y Pwyllgor, mewn perthynas â’i ddarpariaeth o gyngor a sicrwydd yn:

- o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, ystyried y goblygiadau sy’n codi o ddatblygu strategaethau a chynlluniau corfforaethol yr Awdurdodau Iechyd Arbennig neu rai ei randdeiliaid a’i bartneriaid
- o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, ystyried goblygiadau adolygiadau ac adroddiadau mewnol ac allanol i’r Awdurdod Iechyd Arbennig
- adolygu risgiau o’r Gofrestr Risg Sefydliadol a roddir i’r Pwyllgor gan y Bwrdd a chynghori’r Bwrdd ar briodoldeb y camau sgorio a lliniaru sydd ar waith.

- cwblhau ymarfer hunanasesu blynyddol mewn perthynas ag effeithiolrwydd y Pwyllgor
- Goruchwyllo datblygiad strategaethau a chynlluniau Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar gyfer cynnal ymddiriedaeth cleifion a'r cyhoedd trwy drefniadau ar gyfer trin a defnyddio gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn saff a diogel ac unrhyw ofynion a safonau ar gyfer Iechyd a Gofal Digidol Cymru a chyrrff y GIG yng Nghymru.
- Goruchwyllo datblygiad strategaethau Iechyd a Gofal Digidol Cymru a chynllunio ar gyfer diogelwch y rhwydwaith cymwysiaid a seilwaith
- Goruchwyllo gofynion newydd o'r farchnad / yn allanol a pholisi posibl a allai effeithio ar raglen waith Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn y dyfodol a darparu arweiniad
- Er mwyn cyflawni hyn, bydd rhaglen waith y Pwyllgor yn cael ei chynllunio i sicrhau:
 - bod cyfeiriad strategol clir, cyson, arweinyddiaeth gref a llinellau atebolrwydd tryloyw.
 - bod dull sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, gan sicrhau cydbwysedd priodol rhwng didwylledd a chyfrinachedd wrth reoli a defnyddio gwybodaeth a thechnoleg.
 - bod cydweithredu effeithiol â sefydliadau partner a rhanddeiliaid eraill mewn perthynas â rhannu gwybodaeth mewn dull rheoledig, i ddarparu'r canlyniadau gorau posibl i'w ddinasyddion (yn unol â Chytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) a gofynion Caldicott)
 - bod yr Awdurdod Iechyd Arbennig yn cyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU, Deddf Rhyddid Gwybodaeth, Caldicott, Diogelwch Gwybodaeth, Rheoli Cofnodion, Rhannu Gwybodaeth, polisiau Llywodraethu Gwybodaeth cenedlaethol a chanllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.
 - bod yr Awdurdod Iechyd Arbennig yn diogelu ei wybodaeth, ei dechnoleg a'i rwydweithiau trwy fonitro cydymffurfiaeth â rheoliadau Diogelwch Rhwydwaith a Systemau Gwybodaeth a safonau perthnasol
 - bod pob cam rhesymol yn cael ei gymryd i atal, canfod a chywiro anghysondebau neu ddiffygion o ran diogelwch a defnyddio gwybodaeth, cynnal lefelau priodol o brofion bregusrwydd ar rwydwaith cymwysiaid a seilwaith GIG Cymru, gan ddarparu canllawiau ar asesiadau risg sy'n amlinellu camau cywirol ar gyfer eu gweithredu i leihau'r risg i lefel dderbyniol.
 - bod digwyddiadau'n cael eu hadolygu, ac y gweithredir camau unioni mewn modd amserol i leihau'r risg o ailadrodd. Lle bo angen, adolygu'r achos, ac adolygu'r broses, i sicrhau gwelliant parhaus a diogelu ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol.

Bydd y Pwyllgor yn adolygu ac yn cymeradwyo polisiau cysylltiedig ar gyfer yr holl safonau a systemau rheoli uchod.

5 MYNEDIAD

Bydd gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol fynediad rhesymol at y Cyfarwyddwyr Gweithredol ac uwch-staff perthnasol eraill.

6 CYFARFODYDD

Cynhelir cyfarfodydd ddim llai na phedair gwaith y flwyddyn, ac fel arall yn ôl barn Cadeirydd y Pwyllgor.

Bydd y Pwyllgor yn trefnu cyfarfodydd i gyd-fynd â gofynion statudol allweddol yn ystod y flwyddyn, yn unol â chynllun blynyddol Iechyd a Gofal Digidol Cymru o Fusnes y Bwrdd.

6.1 Tynnu unigolion a oedd yn bresennol yn ôl

Gall y Pwyllgor ofyn i unrhyw un neu bob un o'r rheiny sydd fel arfer yn mynychu, ond nad ydynt yn aelodau, i dynnu yn ôl er mwyn hwyluso trafodaeth agored a didwyll ar faterion penodol.

6.2 Dosbarthu Papurau

Bydd Ysgrifennydd y Bwrdd yn sicrhau bod yr holl bapurau'n cael eu dosbarthu o leiaf 5 niwrnod gwaith 7 diwrnod calendr cyn y cyfarfod.

7 AELODAETH, MYNYCHWYR A CHWORWM

7.1 Aelodau

Bydd y Bwrdd yn penodi'r Pwyllgor o blith yr Aelodau nad ydynt yn Swyddogion yn yr Awdurdod Iechyd a bydd yn cynnwys dim llai na 3 aelod, yn cynnwys:

Cadeirydd: Aelod Annibynnol
Aelodau: Aelod Annibynnol x 4

Bydd Cadeirydd yr Awdurdod Iechyd Arbennig yn penodi Cadeirydd y Pwyllgor.

Mynychwyr disgwylidig arferol:

Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol (Gwarcheidwad Caldicott)
Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau
Cyfarwyddwr Cyswllt Gwybodaeth, Deallusrwydd ac Ymchwil
Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd
Cyfarwyddwr Cyswllt Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch Cleifion
Prif Bensaer

7.2 Trwy wahoddiad

Gellir gwahodd Cyfarwyddwyr eraill / Swyddogion Awdurdod Iechyd Arbennig i fynychu pan fydd y Pwyllgor yn trafod meysydd risg neu weithrediad sy'n gyfrifoldeb y Cyfarwyddwr hwnnw

Gall y Pwyllgor hefyd gyfethol aelodau allanol annibynnol ychwanegol o'r tu allan i'r sefydliad i ddarparu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad arbenigol.

7.3 Penodiadau

Bydd aelodaeth y Pwyllgor yn cael ei phennu gan y Bwrdd, yn seiliedig ar argymhelliad Cadeirydd

lechyd a Gofal Digidol Cymru – gan ystyried y cydbwysedd sgiliau ac arbenigedd sy'n angenrheidiol i gyflawni cylch gwaith y Pwyllgor ac yn amodol ar unrhyw ofynion neu gyfarwyddiadau penodol a wneir gan Lywodraeth Cymru.

Bydd y Bwrdd yn sicrhau bod trefniadau cynllunio olyniaeth ar waith.

7.4 Cworwm

Cworwm fydd dau Aelod Annibynnol y mae'n rhaid i un ohonynt fod yn Gadeirydd neu, yn absenoldeb y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd neu Aelod Annibynnol a fydd yn cael ei enwebu/henwebu i Gadeirio'r Pwyllgor. Er budd llywodraethu effeithiol, disgwylir y bydd o leiaf un Cyfarwyddwr a restrir uchod hefyd yn bresennol.

8 LLYWODRAETHU

8.1 Perthynas ac atebolrwydd gyda'r Bwrdd a'i Bwyllgor/Grwpiau

Rhaid i'r Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol fod â pherthynas effeithiol â phwyllgorau neu is-bwyllgorau eraill y Bwrdd fel y gall ddeall y systemau sydd ar waith sy'n llywodraethu safonau diogelwch a defnydd o ddata. Mae'n bwysig iawn bod y Pwyllgor Llywodraethu Digidol a Diogelwch yn parhau i fod yn ymwybodol o'i rôl benodol ac nad yw'n ceisio cyflawni rôl pwyllgorau eraill.

Bydd y Pwyllgor yn trefnu cyfarfodydd i gyd-fynd â gofynion statudol allweddol yn ystod y flwyddyn, yn unol â chynllun blynyddol lechyd a Gofal Digidol Cymru o Fusnes y Bwrdd.

8.2 Trefniadau Adrodd a Sicrwydd

Bydd y Pwyllgor yn darparu adroddiad ysgrifenedig blynyddol i'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr ar ei waith i gefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol gan roi sylwadau penodol ar y canlynol:

- Digonolrwydd y prosesau sydd ar waith sy'n llywodraethu diogelu, diogelwch a'r defnydd o ddata ar draws y sefydliad
- I ba raddau y mae'r safonau Llywodraethu Digidol a Diogelwch wedi'u hymgorffori'n gynhwysfawr ledled y sefydliad
- Priodoldeb gweithgarwch hunanasesu a sicrwydd yn erbyn safonau perthnasol.

Bydd yr adroddiad yn cofnodi canlyniadau hunanasesu a gwerthuso'r pwyllgor.

Bydd y Pwyllgor hefyd yn sicrhau bod trefniadau uwchgyfeirio priodol ar waith i rybuddio Cadeirydd neu Brif Weithredwr lechyd a Gofal Digidol Cymru neu Gadeiryddion pwyllgorau perthnasol eraill am unrhyw faterion brys/difrifol a allai effeithio ar weithrediad a/neu enw da'r Awdurdod lechyd Arbennig.

Bydd y Pwyllgor yn adolygu cydymffurfedd DHCW â'r Safonau Ansawdd sy'n dod o dan ei gylch gwaith.

8.3 Ysgrifenyddiaeth

Bydd y swyddogaeth ysgrifenyddiaeth yn cael ei darparu gan y tîm Llywodraethu Corfforaethol yn

lechyd a Gofal Digidol Cymru.

8.4 Cymhwysedd rheolau sefydlog i Fusnes y Pwyllgor

Mae'r gofynion ar gyfer cynnal busnes, fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog yr Awdurdod lechyd Arbennig, yr un mor berthnasol i weithrediad y Pwyllgor.

9 CYFEIRIADAU

DOGFENNAU - Gellir dod o hyd iddynt yn y System Reoli Integredig / iPassport
Cylch Gorchwyl Grŵp Sicrwydd Gwybodeg Cymru
Cylch Gorchwyl Bwrdd Safonau Gwybodaeth Cymru
Cylch Gorchwyl Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth Cymru
Cylch Gorchwyl y Grŵp Sicrwydd Digwyddiadau Hysbysadwy
Cylch Gorchwyl y Grŵp Dysgu ac Adolygu Digwyddiadau
Cylch Gorchwyl y Grŵp Sicrwydd Gwasanaethau Gwybodaeth
Cylch Gorchwyl Grŵp Sicrwydd Data Cyfeirio Cymru
Cylch Gorchwyl y Grŵp Safonau lechyd a Gofal
Cylch Gorchwyl y Grŵp Sicrwydd Seilwaith Cymwysiadau (AAAG)
Cylch Gorchwyl y Bwrdd Rheoli Seilwaith
Cylch Gorchwyl y Grŵp Dysgu ac Adolygu Digwyddiadau

10 DIFFINIADAU

TERM	DIFFINIAD
IGDC	lechyd a Gofal Digidol Cymru
AIA	Awdurdod lechyd Arbennig